

GEOMÔN - GEOBARC BYD-EANG UNESCO YNYS MÔN

DATGANIAD POLISI IAITH GYMRAEG

Mae GeoMôn yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb sydd yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac o'r herwydd yn:

- Rhoi'r hawl i'w aelodau, gwirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd i fynegi eu barn a'u hanghenion yn eu dewis iaith wrth ymdrin â GeoMôn
- Cydnabod y gall eu haelodau, eu gwirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn ac egluro'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith
- Cydnabod fod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o ymarfer da yn hytrach na chonsesiwn
- Yn cydnabod fod gwadu'r hawl iddynt ddefnyddio'u dewis iaith yn gallu eu rhoi dan anfantais.

Mae GeoMôn wedi mabwysiadu'r egwyddor o ymdrin â'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd, a bydd yn ymdrechu i ddiogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni. I gydymffurfio â'n Cynllun Iaith Gymraeg a'n Safonau Iaith Gymraeg ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016, byddwn yn cyhoeddi pob deunydd yr ydym yn uniongyrchol gyfrifol amdano yn ddwyieithog. Cyfrifoldeb y gwefannau allanol yr ydym yn cysylltu â nhw ydy cydymffurfio â'u Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain, os oes cynllun o'r fath, neu gyda'r Safonau Iaith Gymraeg.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Pan fydd GeoMôn yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus mawr, gall unrhyw un annerch y cyfarfod yn y Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis, a byddwn yn sefydlu dulliau safonol o ddarparu ar gyfer dwyieithrwydd. Bydd pob hysbysiad yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog, gan roi'r flaenoriaeth i'r fersiwn Gymraeg bob amser.

Arwyddion

Bydd pob hysbysiad ac arwydd, mewnol ac allanol, yn GeoMôn yn gyfartal ddwyieithog.

Cyhoeddiadau

Bydd unrhyw ddeunydd a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys pamffledi, llyfrynau, cyhoeddiadau corfforaethol, a deunydd cyffredinol a gyhoeddir ar gyfer ei ddsbarthu i gwsmeriaid yng Nghymru.

Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

Bydd pob deunydd hysbysebu a chyhoeddusrwydd gan GeoMôn yn ddwyieithog e.e. datganiadau, taflenni, logo, sloganau a phosteri. Bydd y ddwy iaith yn gydradd o ran maint, ffont, eglurder ac amlygrwydd. Bydd pob ymgyrch farchnata, datganiadau i'r wasg a datganiadau cyhoeddus gan GeoMôn yn ddwyieithog.

Hysbysebu swyddi

Bydd hysbysebion swyddi gwag yn ddwyieithog.



Rhwydwaith electronig

Dim ond drwy gytundeb ymlaen llaw y bydd testun Saesneg a osodir ar y wefan gan barti allanol yn cael ei gyfieithu.

Gweinyddiad

Anaml y bydd dogfennau ymchwil technegol neu bolisi a gyhoeddir gan GeoMôn ar gyfer ei ddefnyddio ym Mhrydain neu'n fyd-eang yn cael ei gyfieithu gan fod cost afresymol i gyhoeddi'r deunydd hwn a byddai o ddefnydd cyfyngedig yng Nghymru.

Gwella'r Gwasanaeth

Byddai GeoMôn yn falch o dderbyn unrhyw sylwadau ac awgrymiadau gan y cyhoedd ar sut i fynd ati i wella'r gwasanaeth dwyieithog hwn, a byddai'n croesawu unrhyw help gan siaradwyr Cymraeg wrth weithredu'r polisi.

Cafodd y Polisi Iaith Gymraeg hwn ei fabwysiadu gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 1^{af} Ebrill 2016, a daeth i rym o 1^{af} Ebrill 2016. Cafodd ei ddiweddarau ar 29^{ain} Mawrth 2019, a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

